Cyhoeddwyd 25 Mawrth 2013 | Bydd yn dod i rym ar 22 Ebrill 2013

Cyngor Meddygol Cyffredinol

Archwiliadau personol a gwarchodwyr

1 Yn *Arfer meddygol da*,[1] rydym yn nodi:

- 15 Rhaid i chi ddarparu arfer a gofal o safon da. Os byddwch yn asesu, yn gwneud diagnosis neu'n trin cleifion, rhaid i chi:

  a ...yn ôl yr angen, archwilio'r claf.

- 47 Rhaid i chi drin cleifion fel unigolion, gan barchu eu hurddas a'u preifatrwydd.

2 Yn yr arweiniad hwn, byddwn yn esbonio sut y bydd modd i feddygon weithredu'r egwyddorion hyn. Rhaid i chi fod yn barod i egluro a chyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd. Dim ond methiant difrifol neu barhaus i ddilyn ein canllawiau sy'n peri risg i ddiogelwch cleifion neu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn meddygon fydd yn peryglu'ch cofrestriad.

Archwiliadau personol

3 Mae archwiliadau personol yn gallu peri embaras neu ofid i gleifion, a phryd bynnag y byddwch yn archwilio claf, dylech fod yn sensitif i'r hyn a allai gyfateb ag archwiliad personol iddyn nhw. Mae hyn yn debygol o gynnwys archwiliadau o fronnau, organau cenhedlu a'r rectwm, ond fe allai gynnwys unrhyw archwiliadau lle y bydd angen cyffwrdd â'r claf neu fod yn agos iddynt hyd yn oed.

4 Yn yr arweiniad hwn, byddwn yn amlygu rhai o'r materion sydd ynghlwm â chynnal archwiliadau personol. Ni ddylai hyn beri i chi beidio cynnal archwiliadau personol yn ôl yr angen. Rhaid i chi ddilyn yr arweiniad hwn, gan greu cofnodion manwl a chywir ar yr adeg y byddwch yn cynnal yr archwiliad, neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny.

5 Cyn cynnal archwiliad personol, dylech chi:

a esbonio i'r claf pam bod angen cynnal archwiliad a rhoi cyfle i'r claf ofyn cwestiynau

b esbonio'r hyn a fydd yn digwydd yn ystod yr archwiliad mewn ffordd y bydd modd i'r claf ei deall, fel bod gan y claf syniad eglur ynghylch yr hyn i'w ddisgwyl, gan gynnwys unrhyw boen neu anesmwythdra

c sicrhau caniatâd y claf cyn yr archwiliad a chofnodi bod y claf wedi ei roi

d cynnig gwarchodwr i'r claf (gweler paragraffau 8-13 isod)

e os byddwch yn delio gyda phlentyn neu berson ifanc[2]

- rhaid i chi asesu eu gallu i roi eu caniatâd i'r archwiliad[3]
- os na fyddant yn meddu ar y gallu i roi eu caniatâd, dylech geisio caniatâd eu rhiant[4]

f dylech roi preifatrwydd i'r claf ddadwisgo a gwisgo, a'u gorchuddio gymaint ag y bo modd er mwyn cynnal eu hurddas; ni ddylech helpu'r claf i dynnu eu dillad i ffwrdd, oni bai eu bod yn gofyn i chi wneud hynny neu'ch bod wedi cadarnhau gyda nhw eu bod yn dymuno i chi eu helpu.

6 Yn ystod yr archwiliad, rhaid i chi ddilyn yr arweiniad yn *Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd*. Yn arbennig, dylech:

a esbonio'r hyn y byddwch yn ei wneud cyn i chi ei wneud ac, os bydd hyn yn wahanol i'r hyn y byddwch wedi dweud wrth y claf yn flaenorol, esboniwch pam a dylech geisio caniatâd y claf

b stopio'r archwiliad os bydd y claf yn gofyn i chi wneud hynny

c cadw'r drafodaeth yn berthnasol ac ni ddylech wneud unrhyw sylwadau personol dianghenraid.

Archwiliadau personol o gleifion o dan anaesthetig

7 Cyn i chi gynnal archwiliad personol ar glaf o dan anaesthetig neu oruchwylio myfyriwr sy'n bwriadu cynnal archwiliad o'r fath, rhaid i chi sicrhau bod y claf wedi rhoi eu caniatâd ymlaen llaw, yn ysgrifenedig fel arfer.

Gwarchodwyr

8 Pan fyddwch yn cynnal archwiliad personol, dylech gynnig y dewis i'r claf o gael arsylwr diduedd (gwarchodwr) yn bresennol pryd bynnag y bo modd. Bydd hyn yn berthnasol os ydych chi o'r un rhyw â'r claf neu beidio.

9 Fel arfer, dylai gwarchodwr fod yn weithiwr iechyd proffesiynol ac mae'n rhaid i chi deimlo'n fodlon y bydd y gwarchodwr:

a yn sensitif i urddas a chyfrinachedd y claf, ac yn eu parchu

b yn cynnig tawelwch meddwl i'r claf os byddant yn dangos arwyddion o ofid neu anesmwythdra

c yn gyfarwydd gyda'r gweithdrefnau dan sylw mewn archwiliad personol arferol

d yn aros am yr archwiliad cyfan ac yn gallu gweld yr hyn y mae'r meddyg yn ei wneud, os yw hynny'n ymarferol

e yn barod i fynegi pryderon os byddant yn pryderu am ymddygiad neu weithredoedd y meddyg.

10 Ni fydd perthynas neu ffrind y claf yn arsylwr diduedd ac felly, ni fyddent yn warchodwr addas fel arfer, ond dylech gydymffurfio gyda chais rhesymol bod unigolyn o'r fath yn bresennol yn ogystal â gwarchodwr.

11 Os na fyddwch chi neu'r claf yn dymuno i'r archwiliad ddigwydd heb i warchodwr fod yn bresennol, neu os bydd un ohonoch yn teimlo'n anghyffyrddus ynghylch y gwarchodwr a ddewiswyd, gallwch gynnig oedi'r archwiliad tan ddyddiad arall pan fydd gwarchodwr addas ar gael, ar yr amod na fyddai ei oedi yn cael effaith niweidiol ar iechyd y claf.

12 Os na fyddwch yn dymuno i'r archwiliad barhau heb i warchodwr fod yn bresennol, ond mae'r claf wedi nodi nad ydynt yn dymuno cael gwarchodwr yn bresennol, rhaid i chi esbonio'ch dymuniad dros gael gwarchodwr yn bresennol mewn ffordd eglur. Yn y pen draw, rhaid rhoi'r pwys mwyaf ar anghenion clinigol y claf. Efallai y byddwch yn dymuno ystyried cyfeirio'r claf at gydweithiwr a fyddai'n fodlon eu harchwilio heb i warchodwr fod yn bresennol, ar yr amod na fyddai ei oedi yn cael effaith niweidiol ar iechyd y claf.

13 Dylech gofnodi unrhyw drafodaeth ynghylch gwarchodwyr, a'r canlyniad, yng nghofnod meddygol y claf. Os bydd gwarchodwr yn bresennol, dylech gofnodi'r ffaith honno, gan nodi pwy ydynt. Os na fydd y claf yn dymuno cael gwarchodwr yn bresennol, dylech gofnodi bod y cynnig wedi cael ei wneud, a'i wrthod.

Ôl-nodion

1 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* Llundain, CMC.

2 Yn ogystal, rhaid i chi ddilyn ein harweiniad ynghylch diogelu plant a phobl ifanc: cyfrifoldebau pob meddyg. Cyngor Meddygol Cyffredinol (2012) *Diogelu plant a phobl ifanc: cyfrifoldebau pob meddyg* Llundain, CMC.

3 Wrth asesu gallu person ifanc i roi eu caniatâd, dylech gofio'r canlynol:

a pan fyddant yn 16 oed, mae modd tybio bod person ifanc yn meddu ar y gallu i roi eu caniatâd

b efallai y bydd person ifanc dan 16 oed yn meddu ar y gallu i roi eu caniatâd, gan ddibynnu ar eu haeddfedrwydd a'u gallu i ddeall yr hyn a fydd yn digwydd. Cyngor Meddygol Cyffredinol (2007) *0-18 oed: arweiniad i bob meddyg* Llundain, CMC, paragraffau 24–26.

4 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2007) *0–18 oed: arweiniad i bob meddyg* Llundain, CMC, paragraffau 27–28.n

Cyhoeddwyd Mawrth 2013, ddiweddaru Tachwedd 2020.
© 2020 Cyngor Meddygol Cyffredinol.
Mae CMC yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750).